



**PROSIECT MAPIO CYMRAEG**
**Comisiynwyd gan CCC**
**Awdur: Elen ap Robert**
**Mai 2020**

*“Language has little meaning unless it is shared…. and memory shared, is belonging”*



## *CRYNODEB GWEITHREDOL*

Fel rhan o uchelgais Cyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu gweledigaeth gynaliadwy ar gyfer yr Iaith Gymraeg, fe'm comisiynwyd i ymgymryd a phrosiect mapio gweithgareddau celfyddydol trwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn llunio darlun mor gyfredol a phosib o'r hyn sydd yn digwydd ar hyn o bryd ar draws Cymru.

Pwrpas yr ymchwil oedd adnabod lefelau gweithgarwch celfyddydol yn y Gymraeg, gan ganolbwyntio ar weithgarwch nad yw'n cael ei ariannu ar hyn o bryd gan y Cyngor  gyda'r bwriad o gynnig argymhellion i'r Cyngor am y ffordd ymlaen yn unol â'i amcanion (Gweler Cynllun Corfforaethol CCC 2018-2023 - Er Budd Pawb  https://arts.wales/cy/node/270

Cwblhawyd yr ymchwil rhwng Ionawr a Mawrth 2020, ***cyn* y cyfnod cloi yn sgîl Covid19**. Lluniwyd arolwg / holiadur ar y cyd gyda Chyngor y Celfyddydau er mwyn casglu wybodaeth meintiol ac ansoddol. Cwblhawyd 139 holiadur. Canfyddiadau'r holiaduron yw prif ffocws yr ymchwil ynghyd a nifer o gyfweliadau dros y ffôn a wyneb yn wyneb.

Mae adroddiad dadansoddiad llawn o ymatebion i'r arolwg yn gefnlen i'r adroddiad terfynol Mae'r adroddiad terfynol wedi ei rannu yn adrannau fel a ganlyn:

- Cefndir a chyd-destun
- Spectrwm gweithgaredd celfyddydol yn y Gymraeg
- Cynyddu cynnyrch a gweithgareddau celfyddydol yn y Gymraeg a llwybrau gyrfa creadigol
- Gweithgaredd hygyrch a chynhwysol celfyddydol yn y Gymraeg
- Tirlun Diwylliannol: Safbwyntiau a Chanfyddiadau
- Gweithio mewn partneriaeth: CCC yn arwain y ffordd
- Rôl portffolio celfyddydau Cymru
- Datblygu cynulleidfa a Marchnata
- ARGYMHELLION (a chamau gweithredu cysylltiedig)
- Casgliad

## CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Mae ymchwil o gwmpas caffael iaith yn dangos i ni fod yr awydd i ddysgu a deall a chymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol yn ysgogi dysgu a defnyddio iaith. Mae'n dilyn felly bod gan sector y celfyddydau a Chyngor Celfyddydau Cymru gyfrifoldeb a rôl bwysig i'w gyflawni o ran cyfrannu at gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn canol y ganrif ynghyd â chyfrannu at Gymru "*â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu"* (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: 2015)

Mae data Cyngor y Celfyddydau yn dangos bod lle i gredu bod modd creu a chyflawni llawer mwy trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn sector y celfyddydau, ac rydym yn amau mai trwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill y medrwn ni wneud mwy i gyflawni'r potensial sy'n bodoli yng Nghymru.

Mewn trafodaeth gyda swyddogion CCC, cytunwyd y byddai prif ffocws yr ymarfer mapio hwn yn canolbwyntio ar archwilio lefelau o weithgarwch celfyddydol a chanfyddiadau y sector datblygu iaith Gymraeg, yn benodol y sefydliadau a grwpiau sy'n gweithio ar lawr gwlad ac yn ymwneud a datblygiad a hyrwyddo iaith a diwylliant. Mae'r archwiliad hwn wedi cynnwys estyn allan i'r sector gelfyddydol sef sefydliadau portffolio celfyddydau Cymru ynghyd a sefydliadau sydd yn sefyll y tu allan i'r portffolio, artistiaid llawrydd ac ymarferwyr creadigol ynghyd a chydweithwyr celfyddydol CCC, er mwyn cael mwy o fewnwelediad i'r hyn sydd eisoes yn digwydd ar hyn o bryd yn yr iaith Gymraeg a'r heriau a'r cyfleoedd allai fodoli wrth gyflwyno a chreu mwy. Mae'r mapio hefyd wedi cynnwys safbwyntiau pobl a sefydliadau am swyddogaeth a chyfrifoldeb portffolio Celfyddydau Cymru a CCC mewn perthynas â chynnyrch celfyddydol yn y Gymraeg.

Fel rhan o'r broses mapio rhoddais gyflwyniad ac arwain sgwrs am y gwaith mapio gyda'r 22 Menter Iaith yn eu cynhadledd flynyddol. Mae arsylwadau o'r ymgynghoriad hwn, ynghyd a'm canfyddiadau wrth fynychu diwrnod yn archwilio celfyddydau "o dan arweiniad anabledd", yn yr iaith Gymraeg, fel rhan o raglen UNLIMITED yn y Ffwrnes yn Llanelli, hefyd wedi bwydo i mewn i'r gwaith mapio. Cynhaliwyd dau gyfweliad gydag un Canolfan gelfyddydol rhanbarthol a sefydliad Merched Y Wawr cyn rhyddhau yr holiadur ar-lein.

Cyflwynwyd 85 holiadur cyfrwng Cymraeg a 54 cyfrwng Saesneg i gyd. Roedd y cyfranwyr yn cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau o'r sector datblygu iaith gan gynnwys 16 Menter Iaith, yr Urdd, Yr Eisteddfod Genedlaethol, Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Mudiad Meithrin a Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru. Mae canolfannau celfyddydol a theatrau, grwpiau theatr gymunedol llawr gwlad a sefydliadau dawns, cynhyrchwyr, cyfarwyddwyr, artistiaid, ymarferwyr celfyddydol, awduron a beirdd wedi eu cynrychioli o fewn y cyfranwyr, gyda 36 allan o'r 139 holiadur a dderbyniwyd yn aelodau o bortffolio celfyddydau Cymru. Mae cynrychiolaeth o bob ffurf ar gelfyddyd. Serch hynny mae angen pwysleisio bod y wybodaeth a gasglwyd yn cynrychioli cipolwg yn unig, a nid yw'n gynrychioliadol o bell ffordd o bob un dim sydd yn digwydd yn yr iaith Gymraeg ar hyn o bryd (Gweler Atodiad 1 ar gyfer rhestr gyflawn o sefydliadau gyfrannodd i'r ymchwil)

Gofynnwyd yn garedig i gyfranwyr gwblhau cwestiynau oedd yn berthnasol iddyn nhw ac i nodi gwaith oedd 100% yn yr iaith Gymraeg pan yn ateb cwestiynau am weithgareddau celfyddydol yn yr iaith Gymraeg. Nid oedd hyn yn cynnwys gwaith a oedd yn ddwyieithog. Gofynnwyd cwestiwn am hygyrchedd ieithyddol yn ddiweddarach yn yr holiadur mewn perthynas â dwyieithrwydd.

## SPECTRWM GWEITHGAREDD

Gwahoddwyd y cyfranwyr i ddweud wrthym am baramedrau eu gwaith artistig a'u gweithgareddau diwylliannol. Cynigiodd hyn fewnwelediad i ni i'r hyn sydd ar waith mewn neuaddau cymunedol, meithrinfeydd y Mudiad Meithrin, eisteddfodau pentref, clybiau Merched y Wawr, Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, Mudiad Ffermwyr Ifanc ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, ynghyd a Mentrau Iaith sydd yn hybu a hyrwyddo gweithgaredd diwylliannol o'u lleoliadau mewn cymunedau ar draws Cymru - dydi'r ru'n ohonyn nhw'n derbyn arian craidd gan CCC ac eithriadau yw'r rhai sydd yn derbyn arian prosiect. Mae rhai o'r gweithgareddau wedi hen sefydlu ee TÎM, prosiect Theatr Ieuenctid Môn sydd wedi derbyn arian prosiect yn achlysurol gan CCC ers ei sefydlu ugain mlynedd

yn ôl tra bod eraill yn analluog i fynd y tu hwnt i'r camau creu cyntaf oherwydd diffyg cefnogaeth ariannol,  a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cymryd y cam o gomisiynu Cwmni newydd 'Mewn Cymeriad"  i greu *"sioeau un dyn/un ferch sy'n teithio ysgolion cynradd gan gyflwyno hanes Cymru gyda hwyl a chyffro"*.  Mae nifer o'r sefydliadau datblygiad a hybu iaith fel Merched y Wawr yn cynnal gweithgareddau cyfranogol celfyddydol amrywiol, a'r Mentrau Iaith yn trefnu gwyliau diwylliannol blynyddol (wedi eu sbarduno gan egin arian, trwy Mentrau Cymru [MIC] Mudiad Cenedlaethol sy'n cefnogi rhwydwaith o 22 Menter Iaith ledled Cymru) gan cynnig ffenest siop i ddiwylliant a'r iaith Gymraeg. Mae 'rhain yn amrywio o wyliau bychain newydd i Tafwyl, a drefnir gan Fenter Iaith Caerdydd, gŵyl sydd wedi ennill ei phlwy a thyfu yn sylweddol ers ei sefydlu dair mlynedd ar ddeg yn ôl.


Mae yna esiamplau da o weithio mewn partneriaeth rhwng cyrff celfyddydol  a chyrff datblygu iaith e.e gŵyl newydd ar y cyd rhwng Canolfan Theatr a Chelfyddydau Glan yr Afon, Casnewydd a Menter Iaith Casnewydd, consortiwm blaengar yn ei fabandod rhwng Theatr Nanóg, Canolfan Soar Merthyr, Canolfan Les Ystradgynlais ac Ymddiriedolaeth Awen (sydd a'r nod o ddatblygu cynnyrch theatr boblogaidd yn y Gymraeg i ysgolion a theuluoedd), sesiynau drama wythnosol  i bobl ifanc yn cael eu trefnu ar y cyd rhwng Menter Sir Gâr a'r Theatr Genedlaethol, Llenyddiaeth Cymru a Chymdeithas Eisteddfodau Cymru yn hybu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ysgrifennu, a Menter Iaith Ceredigion (CERED) yn cydweithio gyda Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth wrth gynnal sesiynau cerddorfa ukelele anffurfiol trwy'r iaith Gymraeg, i enwi ond rhai. Mae nifer yn yr ymchwil yn nodi llwyddiant y cydweithio clos rhwng y Theatr Genedlaethol a'r Eisteddfod Genedlaethol mewn blynyddoedd diweddar. Ac wrth ystyried gwaith partneriaeth yn ehangach, ceir tystiolaeth o waith partneriaeth blaengar a llawn dychymyg gan yr Eisteddfod Genedlaethol wrth gomisiynu cynyrchiadau LHDT Cymraeg eu iaith mewn partneriaeth a Stonewall, a CERED yn estyn allan i gymuned o ffoaduriaid o Syria trwy'r celfyddydau ar ffurf "Twmpath" Cymraeg.

Esiamplau yn unig a geir yma, o'r cyffyrddiad ysgafn i gyweithiau mwy swmpus, gyda rhai yn fregus a'r rhan fwyaf yn nyddiau cynnar eu datblygiad.  Mae potensial dwi'n teimlo am fwy fyth o gyd weithio mewn partneriaeth ar draws sectorau iaith a chelfyddyd mewn modd strategol.

Gofynnwyd i gyfranwyr restru eu prif weithgareddau Cymraeg ynghyd â chodau post eu lleoliadau (Gweler Atodiad 2) - ac er bod cyfoeth ac amrywiaeth o weithgareddau i weld yn digwydd mewn rhannau o Gymru, gyda llawer mwy yn digwydd yng nghadarnleoedd yr iaith Gymraeg, yng Ngogledd Orllewin Cymru a Cheredigion. Mae darpariaeth anghyson mewn mannau eraill o Gymru gan gynnwys Powys, Sir Fynwy, Casnewydd a rhannau o Gaerfyrddin, o'r tystiolaeth a ddaeth i law.

Er nad oedd nifer o fewn a thu hwnt i'r sector Celfyddydau i weld yn ymwybodol o'r hyn a olygir wrth "portffolio celfyddydau Cymru:" o'r holiaduron gyflwynwyd, 'roedd gwaith Frân Wen, Theatr Genedlaethol, Theatr Bara Caws, Arad Goch, Theatr na nÓg a chanolfannau gyda phwyslais ar yr iaith Gymraeg megis Galeri, Theatr Felinfach a Pontio yn cael eu enwi gan nifer fel esiamplau o ymarfer da yn yr Iaith Gymraeg gan sefydliadau portffolio celfyddydol a cyfeiriwyd at esiamplau difyr o gydweithio creadigol a chyffrous gan BBCNow a'r Eisteddfod Genedlaethol. Dyfynnir sioeau llwyddiannus "Llyfr Glas Nebo" gan Frân Wen a chynhyrchiad "Tylwyth" Theatr Genedlaethol (taith a dorrwyd yn fyr oherwydd y Covid19)  fel esiamplau o gynyrchiadau diweddar cyfoes o ansawdd sy'n meddu ar werthoedd cynhyrchu safonol ac sydd wedi denu cynulleidfaoedd da.

Mae’n werth nodi darn sydd eto i weld golau ddydd, allai gael ei ddatblygu fel cynhyrchiad llwyfan yn ddibynnol ar glirio hawliau, sef “ 2117”, opera cyfrwng Cymraeg gan Opera Cenedlaethol Cymru, wedi ei seilio yn rhannol ar hanes Hedd Wyn, ac wedi ei osod mewn dyfodol yn dilyn trychineb niwclear. Roedd y cywaith hwn ar y cyd rhwng S4C, Ffilm Cymru Wales a Only Boys Aloud i’w ffilmio er mwyn ei ryddhau ar gyfer y sinema ac wedyn ei ddarlledu ar S4C, wedi ei ysgrifennu gan Gruff Rhys, ei gyfansoddi gan Stephen McNeff ac i’w gyfarwyddo gan Marc Evans, ei gynhyrchu gan Seven Screen, dan arweiniad Ed Talfan Davies a Rondo Media.




**CYNYDDU CYNNYRCH YN YR IAITH GYMRAEG A LLWYBRAU GYRFA CREADIGOL**

Roedd ffocws y gwaith hwn ar weithgaredd trwy gyfrwng y Gymraeg ac fe fynegodd rhai cyfranwyr o’r sector gelfyddydol y farn bod gwaith dwyieithog yn fwy perthnasol i’w sefydliadau penodol nhw a’r cymunedau mae nhw’n eu gwasanaethu, na gweithgaredd 100% yn y Gymraeg, gyda rhai yn dweud nad yw’r Gymraeg yn flaenoriaeth iddyn nhw nac ychwaith yn berthnasol iddyn nhw. Nid yw gwaith dwyieithog yn brif ffocws yr ymchwil y tu hwnt i hygyrchedd i’r iaith Gymraeg ac mae potensial am ymchwil benodol yn y maes hwn, er mwyn cael eglurder am yr hyn a olygwn wrth ‘“dwyieithog” pan yn creu gwaith a hefyd pan yn adrodd yn ôl i arianwyr, ond hefyd pan yn ystyried “pam” creu gwaith dwyieithog ac “i bwy” yn union.

Pan ofynnwyd i gyfranwyr pa % o’u gweithgaredd celfyddydol yn ystod y 3 mlynedd diwethaf a gyflawnwyd trwy gyfrwng y Gymraeg, mae’r mwyafrif o’r rhai gwblhaodd holiaduron yn y Saesneg yn pwyntio i lai na 25% tra bod y rhan fwyaf o’r rheiny gwblhaodd yr holiadur yn y Gymraeg yn cyflawni y tu hwnt i 75% yn y Gymraeg. Cwblhaodd sefydliadau sector Iaith Gymraeg, artistiaid a chwmnïau/ymarferwyr sy’n medru’r Gymraeg a sefydliadau celfyddydol sydd yn creu yn yr iaith Gymraeg ac sy’n derbyn cyllid gan CCC holiaduron cyfrwng Cymraeg ac roeddent yn arddangos ymwybyddiaeth o berthnasedd yr iaith Gymraeg.  Roedd yn ddiddorol sylwi bod llai o bwyslais ar weithgaredd cyfrwng Cymraeg o fewn sefydliadau lle nad yw'r iaith Gymraeg mor amlwg fel rhan o ethos a diwylliant y sefydliad.

Mae bob cyfrannwr o'r bron yn cyfeirio at sialensau sydd yn bodoli wrth gyflawni, creu a chynyddu cynnyrch cyfrwng Cymraeg ac yn nodi diffyg argaeledd cynnyrch, diffyg amrywiaeth o fewn y cynnyrch ag ansawdd anghyson y cynnyrch fel rhesymau. Yn wir nodwyd gan nifer yr angen am fwy o'r doniol a'r dwys a mwy o theatr Gymraeg sydd yn adlonni: *"Mae angen mwy o hwyl"* !   Teimlai rhai cyfranwyr bod angen rhoi lle i theatr mwy arbrofol gydag ambell un arall yn mynegi dyhead i greu gwaith uchelgeisiol graddfa fwy o faint. Ar fater ar wahân, 'roedd teimlad nad oedd yna brinder syniadau.

Mae cyfle yn gael ei golli, awgrymir, i gyflwyno'r celfyddydau trwy'r Gymraeg i blant, oed cyn-ysgol. Teimla'r Mudiad Meithrin nad yw'r oed cyn ysgol yn cael y gydnabyddiaeth y dyliai gael, fel maes allai gael budd o ymyrraeth celfyddydol, gan ddweud bod diffyg dirnadaeth o gyfraniad a photensial celfyddydol plant bach.



Mae absenoldeb strategaeth hir dymor a diffyg buddsoddiad yn y celfyddydau yn yr iaith Gymraeg, yn cael ei ystyried fel rhwystr i sector gelfyddydol cydlynus sy'n ffynnu.  Nodwyd "*Cynnydd realistig mewn buddsoddiad i greu gwaith cyfrwng Cymraeg. Cynnydd mewn buddsoddiad i ddatblygu cynulleidfaoedd ar gyfer gwaith ymhob iaith ar draws Cymru. Buddsoddiad yn ngyrfaoedd unigol gwneuthurwyr theatr yn yr iaith Gymraeg"* fel themâu sydd angen  sylw brys, gan brif ganolfan gelfyddydol cenedlaethol. Nodwyd hefyd bod diffyg capasiti i wneud i waith ddigwydd y tu hwnt i'r sefydliadau hynny sydd yn cael eu cyllido gan CCC i gynhyrchu gwaith yn yr iaith Gymraeg.  Mae yna gyfeiriadau dro a thro at ddiffyg cyllid i greu cynnwys celfyddydol cyfrwng Cymraeg a thystiolaeth o fylchau amlwg mewn darpariaeth celfyddydol cyfrwng Cymraeg mewn rhai rhannau o Gymru.

Thema gyson oedd absenoldeb rhaglen hyfforddiant a llwybrau ar gyfer pobl greadigol a hwyluswyr yn yr iaith Gymraeg gydag un sefydliad cenedlaethol arall yn galw am "*hyfforddiant wedi ei dargedu, mewn partneriaeth â Phrifysgol neu Gonservetoire i ddysgu Animateurs ac arweinwyr gweithgareddau cyfranogol ar sut i arwain gwaith yn y gymuned trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg"*. Nodwyd diffyg ymarferwyr a thiwtoriaid dawns yn yr iaith Gymraeg yn benodol ar sawl achlysur ac roedd sawl galwad am fwy o gefnogaeth ar gyfer artistiaid Cymraeg eu hiaith newydd gymhwyso o'r colegau celf, ac sy'n dychwelyd i Gymru ac ar ddechrau eu gyrfa -  gan bwysleisio yr angen i ddod o hyd i ffyrdd i'w cadw, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Ar nodyn arall mynegodd un artist gweledol profiadol ei barn bod celf weledol yn rhywbeth sydd yn digwydd yn bennaf drwy'r Saesneg, yng Nghymru a bod angen newid hyn.

Cyfeiriodd un cyfrannwr at ddigwyddiad diddorol, sydd wedi ei gynnal gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd yn y Celfyddydau ac yn ehangach. Ariannwyd Gŵyl MAP gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac fe'i cynhaliwyd yn y EGIN, (hwb i'r diwydiannau creadigol a digidol yng Nghaerfyrddin) 'Roedd y digwyddiad yn gyfle i fyfyrwyr cyfredol tair Prifysgol glywed gan ymarferwyr niferus a chael syniad o realiti gyrfa yn creu - boed hynny yn y Celfyddydau neu yn ehangach yn y Diwydiannau creadigol.

Mae'r uchod yn creu darlun o ecoleg fregus - sy'n gofyn am yr angen i fabwysiadu agwedd gyllido tymor hir, a hyn wedi ei danategu gan gynllunio strategol gofalus.  Mae hefyd yn

dangos bod galw am weithgaredd cyfrwng Cymraeg o gyfeiriad y sector celfyddydol ynghyd a'r sector datblygu iaith, a hyn yn ei dro yn awgrymu y byddai cynnydd mewn cydweithio holistig traws sector a meddwl ar y cyd yn fanteisiol.

## GWEITHGARWCH HYGYRCH A CHYNHWYSOL YN YR IAITH GYMRAEG

Mae'r gwaith mapio yn arddangos cyfoeth o esiamplau o waith hygyrch a chynhwysol yn yr iaith Gymraeg, gydag enghreifftiau o ymarfer da a gwaith arloesol mewn datblygiad gyda grwpiau sydd yn cael eu tangynrychioli.

Mae tystiolaeth bod hygyrchedd i'r iaith Gymraeg trwy app Sibrwd Theatr Genedlaethol wedi galluogi dysgwyr a rhai sydd ddim yn siarad Cymraeg i gael mynediad, a chael profiad cadarnhaol o gynyrchiadau Cymraeg eu hiaith: fel dywedodd un aelod o gynulleidfa Canolfan Soar mewn perthynas a chynhyrchiad diweddar gan Y Theatr Genedlaethol a Chriw Brwd:

*"Pryd Mae'r Haf" was fab - aside from the great performances I, weirdly, particularly liked the inter-scene set changes.  Sibrwd was really interesting – I was in an odd state of being both slightly adrift and of complete comprehension! Absolutely not a negative, I felt included in a way that I wouldn't have been possible otherwise. Da Iawn."*

Mae esiamplau cyffrous o'r ffyrdd mae cwmnïau wedi meddwl yn greadigol am hygyrchedd ieithyddol o fewn y gwaith creadigol ei hun ac mewn perthynas a naratif a ffurf:
Mae A Good Clean Heart : Neontopia / Canolfan Mileniwm Cymru wedi gosod y safon yn hynny o beth ac yn fwy diweddar ceir "Drudwen": Cwmni syrcas Cimera, "My Body Welsh": Cwmni Theatr Invertigo a "BARDD:" cywaith rapio a barddoniaeth dwyieithog - oll yn esiamplau, ynghyd a phrosiect drama i bobl ifanc ym Mangor lle mae'r grwpiau yn dyfeisio sioeau cwbl ddwyieithog ei hunain.

Wrth ystyried grwpiau sydd yn cael eu tangynrychioli fe allwn gyfeirio at waith e.e., Theatr Genedlaethol, Theatr Iolo a'r Eisteddfod Genedlaethol, fel esiamplau o gwmnïau sydd wedi castio perfformwyr BAME yn eu gwaith, fel a welwyd yng nghynyrchiadau "Cylch Sialc", " Chwarae" a "Hwn Yw Fy Mrawd". Serch hynny mae angen dybryd i gynyddu cyfleoedd perfformio ar gyfer perfformwyr BAME sydd yn siarad Cymraeg, ac yn wir o fewn holl adrannau'r broses greadigol.

Mae cymunedau LHDT wedi cael llwyfan blaenllaw yn strand comisiynu blaengar yr Eisteddfod Genedlaethol "Mas ar y Maes", ddatblygwyd mewn partneriaeth gydag artistiaid o'r gymuned hoyw a sefydliad ymgyrchu LHDT Stonewall. Ac mae "Tylwyth" hir disgwyliedig, Dafydd James gan Y Theatr Genedlaethol, disgynnydd "Llwyth" o 10 mlynedd yn ôl, yn parhau gyda phennod nesaf sylwebaeth bryfoclyd ar fywyd cyfoes Cymru, wrth i 'r pâr hoyw Dan a Aneurin gychwyn eu bywyd teuluol.

Ochr yn ochr a hyn, noda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sut mae gweithio gyda'r Theatr Genedlaethol ar "Tylwyth"  wedi eu helpu "*i gyflwyno pwnc amrywiaeth mewn dosbarthiadau Cymraeg. Yn yr un modd, 'roedd cydweithio i greu gwers ar "Y Tad" wedi ein cynorthwyo i gyflwyno pwnc dementia yn y dosbarth…Gall cyflwyno gwaith celfyddydol fod yn gymorth mawr i gyflwyno rhai pynciau."*

Ceir esiamplau dyfeisgar o anabledd a'r Gymraeg yn cael eu archwilio ochr yn ochr a'i gilydd, fel yn achos gwaith mewn datblygiad gan Alun Saunders a chwmni theatr "Taking Flight " "I Said I Loved You" (teitl gwaith ar y gweill) lle ceir archwiliad creadigol gydag artist byddar o BSL a'r iaith Gymraeg - y ddwy iaith wedi profi gorthrwm yn eu tro, a chywaith dawns awyr a cherdd fyw, mewn datblygiad, i bobl a nam gweld "Yn y Golau / In the Light" gan Vertical Dance Kate Lawrence. Ceir hefyd esiamplau o arwyddo yn cael ei gyflwyno o fewn gwead sioeau graddfa fechan ee sioe Nadolig 2018 gan Theatr Clwyd a Pontio '"Y Llew a'r Crydd" Ceir hefyd esiamplau o arwyddo sensitif ag effeithiol fel cyfeiliant i gynyrchiadau prif lwyfan megis sioe un ddynes bwerus " Anweledig' gan Gwmni Frân Wen.

Ond, er mwyn sicrhau newid sylfaenol a a hirdymor mae Cwmni Hjinx, sydd yn gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu a/neu bobl awtistig yn credu bod yna le i newid darpariaeth addysg arbennig, i alluogi "*pobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu bobl awtistig i ddysgu Cymraeg - gan gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg fyddai yn gallu cael mynediad i'w Academi, ac o ganlyniad yn gallu bod ynghlwm a chreu gwaith*"

Mae na dueddiad i ni golli golwg o'r hyn sydd yn digwydd yn yr iaith Gymraeg ym maes hygyrchedd ac amrywiaeth - a pherygl ein bod yn gweld gwaith yn yr iaith Gymraeg ac i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith trwy un lens yn unig - pan fo'r gwir ddarlun yn llawer mwy kaleidoscopig. Mae'r archwiliadau hyn yn esiamplau o ymarfer da ond mae nhw angen amser i esblygu ac yn drwm ar adnoddau. Mae'r mentrau hyn angen cael eu cydnabod a'u dathlu, eu hybu ymhellach a'u datblygu.

**TIRLUN DIWYLLIANNOL: SAFBWYNTIAU A CHANFYDDIADAU**

Thema sydd yn dod i'r amlwg drwy'r mapio yw'r berthynas rhwng yr iaith a diwylliant yn yr iaith Gymraeg, ynghyd a'r safbwyntiau amrywiol am hyn sydd yn bodoli o fewn y sector Celfyddydau a'r sector datblygu iaith.

Mae Canolfan amlwg sydd yn aelod o bortffolio Celfyddydau Cymru yn rhannu gyda ni eu crêd twymgalon bod "*diwylliant a iaith yng Nghymru yn mynd law yn llaw - "fel artist sydd yn siarad Cymraeg, rydych chi wedi tyfu fyny gyda'r Urdd, yr Eisteddfod fel rhan o'ch DNA felly mae Celfyddydau cymunedol wedi ei wreiddio yn enaid rhywun"* .
Gellid dweud bod dawnsio a cherddoriaeth werin, cerdd dant - y grefft o gyflwyno neu berfformio barddoniaeth i gyfeiliant telyn, a chynghanedd, oll yn esiamplau o weithgareddau diwylliannol traddodiadol sy'n digwydd yn yr iaith Gymraeg - maent yn digwydd ar lawr gwlad, yn aml yn wirfoddol a gyda elfen gystadleuol, mae yna ymdeimlad o bwysigrwydd gwarchod y traddodiadau hyn ochr yn ochr a awch i'w dychmygu o'r newydd.
Ymhellach i hyn mae un cwmni theatr cydweithredol llawr gwlad yn gweld dim gwahaniaeth rhwng y proffesiynol a'r amatur - gan gredu bod diwylliant yn rhywbeth i bawb, a'i fod am y berthynas sydd rhwng pobl, ac am berthyn.

Mewn gwrthgyferbyniad, mae sefydliad portffolio bychan yn gwahaniaethu rhwng "*gweithgaredd yn yr iaith Gymraeg, sydd wedi ei gynhyrchu'n broffesiynol, ac sydd yn ymateb i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr, a gweithgaredd celfyddydol sydd yn cael ei arwain gan y gymuned trwy sefydliadau fel yr Urdd a'r eisteddfod a chwmnïau fel Theatr Maldwyn".*

Mae nifer yn yr holiaduron yn nodi bod gwaith artistig yn yr iaith Gymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn unig, a gan bod niferoedd siaradwyr Cymraeg yn fychan, bod y potensial  o ran niferoedd cynulleidfa yn gyfyngedig, gan olygu risg ariannol i'r sefydliadau

hynny sydd wedi eu lleoli mewn rhannau o Gymru lle mae llai o siaradwyr Cymraeg yn byw, neu sydd a rhaglen sydd ddim yn canolbwyntio ar weithgaredd yn yr iaith Gymraeg.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn credu bod y farn yng Nghymru bod cynnyrch yn y Gymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn unig, yn unigryw i Gymru - a bod hyn ddim yn wir yn rhyngwladol. Fe brofodd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn 2018 nad yw iaith yn rhwystr i fwynhau y celfyddydau yn y Gymraeg ac y gall ansawdd godi uwchlaw rhwystrau ieithyddol canfyddedig.


Dywed un band cerddoriaeth byd sydd yn perfformio yn y Gymraeg yn unig, ar y llwyfan rhyngwladol na ddylien ni wneud môr a mynydd o'r iaith Gymraeg ac y dylien ni ddweud yn syml ac yn hyderus " *mai dyma be'  'da ni'n gwneud - mae'n normal ac yn wych"*

Mae cyfrannwr arall yn siarad am bwysigrwydd gweld dwyieithrwydd fel spectrwm. Awgryma y gallai'r sector gelfyddydol elwa o weithio gydag e.e. Y sector Addysg Uwch , i hyrwyddo cysyniad y 'Troad Amlieithog' sy'n rhyddhau pobl gan agor y meddwl i'r modd y gall pawb, o gael yr agwedd iawn, werthfawrogi celfyddydau sy'n tarddu o ddiwylliannau ac o ieithoedd ar wahân i'w iaith gyntaf.

Mae nifer o gyfranwyr yn yr ymchwil o'r farn bod angen newid canfyddiad o iaith - er mwyn i'r iaith Gymraeg gael ei gweld, nid yn unig yn eiddo i'r rheiny sydd yn ei siarad hi.. ond fel rhywbeth cynhwysol - wrth bod gan bawb hawl i gael mynediad iddo.

Mae cyfraniadau i'r gwaith mapio hwn yn tanlinellu bod angen gwell ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ynghyd a dealltwriaeth ddyfnach o'i gydestun diwylliannol a hanesyddol o fewn y sector gelfyddydol - a allai yn ei dro, helpu i amlygu ei pherthnasedd i ni gyd.

Fe fynegodd cyfrannwr arall y farn na ddyliai iaith gael ei droi yn rhywbeth gwleidyddol ac nad yw e am iaith  - *"mae a am greu!"*



***GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH:  CCC YN ARWAIN Y FFORDD***

Tra bod yr Urdd yn datblygu nifer o bartneriaethau lleol gyda chwmnïau celfyddydol  gan gynnwys NEW Dance, mae gan y mudiad hefyd weledigaeth i gynyddu ei ddarpariaeth celfyddydol gymunedol ar draws Cymru (ac yn rhyngwladol) o edrych i'r dyfodol. Mae Valleys Kids yn gweithio gyda'u Menter Iaith ac ysgolion lleol i ddatblygu eu gwaith Cymraeg - ac maent o'r farn bod "partneriaeth yn allweddol" . Fe geir cais gan sefydliad Peak am gyfleoedd traws ddisgyblaethol - "*lle gall sefydliadau celf weledol gael eu cysylltu a phartneriaid lle mae'r Gymraeg yn ganolog"* ac mae Theatr Byd Bychan yn credu'n gryf mewn par-

tneriaethau rhwng y sector celfyddydol a sectorau eraill gan gyfeirio at eu gwaith awyr agored presennol gyda Menter Iaith CERED a'r Eisteddfod. Yn wir heb weithio mewn partneriaeth gyda'r Eisteddfod, hona'r Torch na fyddai fersiwn Cymraeg o GRAV a thaith arfaethedig o Gymru yn gallu digwydd.

Tra bod esiamplau amlwg o weithio traws sector, mae hefyd consensws clir o'r cyfraniadau daeth i law a'r sgyrsiau sydd wedi eu cynnal yn ychwanegol i'r holiadur, bod angen a awydd gwirioneddol am lawer mwy o weithio ar y cyd - rhwng sefydliadau celfyddydol a sefydliadau datblygu iaith a chynllun strategol i alluogi hyn ddigwydd yn well.

Mae nifer o'r farn y dyliai Cyngor y Celfyddydau arwain ar ddatblygiad perthynas strategol gyda'r sector datblygu iaith ynghyd a chael chyfrifoldeb dros hybu amgylchedd positif, i alluogi hyn i ddigwydd, trwy sefydlu consortiwm ar gyfer sefydliadau traws sector, fyddai â'r nod o adeiladu rhwydweithiau a rhannu gwybodaeth. Un pwynt gweithredu amlwg fydd sefydlu a rheoli bas data canolog o ymarferwyr celfyddydol Cymraeg eu hiaith. Un syniad gafodd ei fynegi gan sawl un oedd yr angen i greu swydd newydd, benodol, sef swyddog iaith Gymraeg a'r celfyddydau i helpu'r sector celfyddydol i ddatblygu strategaethau iaith Gymraeg a chydweithio mewn partneriaeth ar draws sefydliadau a sectorau. (Yn wir mae elfen o hyn yn digwydd yn organig ar lawr gwlad - diddorol nodi bod gan Head4Arts berthynas gyda'r Mentrau Iaith lleol. Maent yn cyd ddatblygu prosiectau ac wedi trefnu yn ddiweddar i rannu oriau aelod o staff er mwyn cefnogi gwaith ei gilydd)

## ***RÔL PORTFFOLIO CELFYDDYDAU CYMRU***

Mae rhai o'r farn bod gan sefydliadau portffolio rôl allweddol mewn galluogi gweithgaredd celfyddydol yn y Gymraeg i fod ar gael i bawb, ym mhob rhan o Gymru, gydag eraill o'r farn y gallai'r portffolio fod yn arwain ac yn ysbrydoli creu a chyflwyno mwy o weithgareddau Cymraeg eu hiaith. Mae rhai yn meddu ar y safbwynt y dyliai cyflwyno'r Gymraeg a gweithgareddau Cymraeg fod yn amod craidd i aelodau portffolio celfyddydau Cymru, tra bod cyfrannwr arall yn gwneud sylw mewn ymateb i ddogfennaeth CCC fel a ganlyn: *"Yn ôl y ddogfennaeth, sylwaf mai eu rôl (portffolio celfyddydau) o ran datblygu cynnyrch a gweithgaredd Cymraeg yw: marchnata, (cyfathrebu dwyieithog ayb); cynllunio i gynyddu'r Gymraeg yn y gwaith, a chynllunio i ddatblygu'r Gymraeg ymhlith staff ac aelodau'r bwrdd."* Mae'r cyfrannwr yn mynd ymlaen i gwestiynu tybed a oes angen rhoi mwy o bwyslais ar GREU drwy'r Gymraeg gan nodi fel arall bod "*perygl fod y rhestr anghenion yn awgrymu set o dargedau gweinyddol yn hytrach na gweledigaeth greadigol o safbwynt y Gymraeg."*

## **DATBLYGU CYNULLEIDFA A MARCHNATA**


Mae 'na farn o fewn rhai adrannau o sector y celfyddydau bod cynulleidfaoedd Iaith Gymraeg yn annatblygedig, gydag rhai yn teimlo bod angen ymchwil i'r hyn hoffai cynulleidfaoedd Cymraeg ei weld. Mae eraill yn credu bod angen i'r gynulleidfa Gymraeg agor i fyny a denu cynulleidfaoedd newydd gan gynnwys dysgwyr a rheiny sydd ddim yn medru'r Gymraeg. Mynegodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol eu awydd i " *weithio gydag unrhyw grwpiau sydd am hyrwyddo cyfleoedd celfyddydol Cymraeg ymhlith dysgwyr"* gan bwysleisio mai "*nid gwaith dwyieithog sydd angen ar ddysgwyr ond Cymraeg o fewn eu lefel nhw. Mae dwyieithrwydd yn ddefnyddiol i rai sy'n dechrau dysgu a'r di-Gymraeg".* Mae hyn oll yn dangos eto, sut y byddai cydweithio a rhannu arbenigedd ar draws sectorau yn werthfawr tu hwnt.

Ymddengys o gyfraniadau gan sefydliadau datblygu iaith eu bod yn teimlo eu bod mewn lle da i helpu i gefnogi'r sector Celfyddydau, theatrau a chanolfannau celfyddydol yn arbennig, i estyn allan i gynulleidfaoedd am eu bod yn adnabod eu cymunedau. Mae Menter iaith Caerffili o'r farn bod ganddynt gyfle "*i weithio'n agos a'r sector celfyddydol er mwyn cynyddu'r nifer o weithgareddau celfyddydol Cymraeg sydd ar gael, datblygu sgiliau celfyddydol pobl leol a datblygu mwy o weithwyr celfyddydol sy'n medru darparu yn Gymraeg."*
Cawn ein rhybuddio gan nifer o sefydliadau datblygu iaith, yn erbyn dull o farchnata sydd yn digwydd yn rhy bell o'r gynulleidfa. Mae mentrau llawr gwlad yn pwysleisio bod ymgysylltu a chymunedau **yn gynt, wyneb yn wyneb** a chreu gwaith **gyda nhw** yn bwysig **(**Roedd hyn yn wir hefyd am bobl greadigol **-** gyda rhai yn credu y gallai sgwrs yn gynharach yn y broses greadigol fod yn werthfawr) Yn ôl y Mentrau Iaith mae mynd a pherfformiadau **allan i'r gymuned** hefyd yn help i gael gwared o rwystrau canfyddedig sydd i fynd i mewn i ofod theatr.'

Esbonia Menter Iaith Conwy sut y byddai cymorth gyda theithio o ardaloedd mwy gwledig o Gymru i weld sioeau, yn gallu cynyddu niferoedd mynychu, ynghyd a chynnig cynnyrch iaith Gymraeg yn fwy cyson er mwyn ateb anghenion cynulleidfaoedd iaith Gymraeg ardaloedd arfordirol. Awgrymodd Merched y Wawr y gellid bod yn fwy hyblyg gydag amseroedd perfformiadau mewn ymateb i anghenion pobl oedrannus ein cymunedau **-** sydd yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau a sioeau yn gynharach yn y dydd.

O edrych ar hyrwyddo gweithgaredd ymgyfranogol yn benodol gwnaethpwyd y sylw diddorol gan un cyfrannwr, bod pobl Cymru yn amharod weithiau i wneud pethau er eu pennau ei hunain ac er eu budd nhw ei hunain : *"maent lawer fwy debygol o gyfranogi os yw prosiect yn cael ei fframio fel un er lles eraill neu er lles y gymuned."*

Ceir sylw diddorol am y ffordd y dyliai'r sector celfyddydau feddwl am gyfieithu, a bod angen deall nad mater syml o gyfieithu deunydd marchnata i'r Gymraeg yw hyn: *"Mae denu cynulleidfa yn golygu adnabod y gynulleidfa a chyfathrebu â hi, nid yn unig yn ei hiaith, ond yn ei hidiom.*



**ARGYMHELLION MAPIO:**

**PARTNERIAETH STRATEGOL TRAWS SECTOR.**



"*Galluogi i Gyngor y Celfyddydau weithio'n fwy effeithiol, gan gydweithio'n fwy dychmygus â phartneriaid o'r un feddwl ledled Cymru*" (Cynllun Corfforaethol CCC: Er Budd Pawb)

- **CCC i arwain ar greu partneriaeth hirdymor a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cysylltiedig rhwng sector y Celfyddydau a'r sector ddatblygu Iaith, gan fabwysiadu model cyd ariannu penodol ar gyfer mentrau cysylltiedig a phrosiectau cenedlaethol wedi eu cytuno arnynt (erbyn Mawrth 2021)**

- **CCC / Sector Datblygu Iaith Gymraeg i sefydlu Consortiwm Celfyddydau a iaith Gymraeg - rhwydwaith yn cynnwys aelodau o'r sector y Celfyddydau a sector Iaith Gymraeg, i weithredu ar flaenoriaethau, i ddatblygu cydweithio agosach ac i rannu arbenigedd a gwybodaeth ( erbyn Ebrill 2021)**

- **CCC/Sector Datblygu Iaith Gymraeg i greu swydd newydd ar y cyd - Rheolwr Datblygu Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg, i arwain ar gydweithio sefydliadol traws sector ( sicrhau apwyntiad erbyn Ionawr 2021)**

- **CCC i'w gwneud yn amod i Fyrddau portffolio Celfyddydau Cymru bod o leia 25% o aelodau Bwrdd pob sefydliad yn siaradwyr Cymraeg rhugl (erbyn Ebrill 2021)**

- **CCC i gyflwyno newid mewn lefel ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, ei diwylliant a'i hanes, o fewn y sector celfyddydol (erbyn Mawrth 2021) gan ddechrau gyda chyflwyniad a gweithdy ar Iaith, diwylliant a hanes  y Gymraeg, i holl staff CCC o dan arweiniad yr Athro Peredur Lynch a'r Athro Mererid Hopwood ( erbyn Rhagfyr 2020)**

**Camau gweithredu i gynnwys:**

- Cynnal 3 digwyddiad Cwrdd Carlam ar gyfer sefydliadau sector celfyddydau a datblygu iaith, i gwrdd ac archwilio syniadau creadigol yn ogystal â rhannu wybodaeth berthnasol gan beilota 1 perthynas "Bydi "/ rhannu wybodaeth rhwng staff allweddol sefydliad celf a sefydliad iaith ee Cwmni theatr Fio a Menter Iaith Caerdydd.

- CCC i greu rhestr o sefydliadau, mentrau, hyrwyddwyr a dylanwadwyr o'r sector datblygu iaith ar gyfer y sector celfyddydol.

- Y sector gelfyddydol i weithio gyda'r sector iaith i adnabod aelodau Bwrdd newydd posib ar gyfer sefydliadau y sector gelfyddydol - gan gynyddu cynrychiolaeth iaith Gymraeg (ar hyd llinellau menter sgiliau Bwrdd Celfyddydau a Busnes)

- CCC i weithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a'r consortiwm Celfyddydau / iaith Gymraeg newydd i greu diffiniad o " Ddwyieithrwydd", er mwyn sicrhau cysondeb yn y ffordd mae'r sector celfyddydol yn adrodd ar weithgaredd ac ymgysylltiad

celfyddydol trwy'r Gymraeg a dwyieithog, ynghyd a hyrwyddo/marchnata, a sut mae hyn oll yn cael ei fonitro yn fewnol gan arianwyr ee CCC.

- CCC i weithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, i gyflwyno rhaglen o hyfforddiant ar gyfer y sector celfyddydol ac o fewn CCC, i ddatblygu gwell dealltwriaeth o gydestun, hanes a diwylliant sydd ynghlwm â'r iaith Gymraeg, er mwyn magu dealltwriaeth ddofnach a synnwyr o berchnogaeth dros yr iaith Gymraeg gan bawb sydd yn byw yng Nghymru, yn siaradwyr Cymraeg neu beidio.

- Archwilio ffyrdd y gall y sector Celfyddydau gael ei gynrychioli ar fforymau Iaith Gymraeg mewn perthynas a hyrwyddo polisïau Iaith Gymraeg cynghorau sir, gan nodi ymarfer da Môn a Chaerfyrddin, a gan rhoi ystyriaeth i Femorandwm sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd rhwng CCC a Fforwm Partneriaeth Iaith Gymraeg Caerdydd. Ochr yn ochr a'r gwaith hwn, sicrhau bod CCC yn cael ei enwi fel rhanddeiliaid, yn ogystal a'r " theatrau" ar dudalen 34 Safonau Iaith Gymraeg ( mae'r Cyngor Chwaraeon yn cael ei enwi yma, ond nid yw CCC yn cael e enwi yno ar hyn o bryd)

- Adnabod  a gweithredu o leiaf un prosiect partneriaeth celf/iaith Gymraeg cenedlaethol i gyfrannu arian cyfatebol iddo a'i beilota, gydag ystyriaeth i 1) Fenter cerddoriaeth, BocSwn Mentrau Iaith mewn partneriaeth a Cerdd Cymunedol Cymru (ac o bosib mewn cysylltiad a sefydliad newydd Anthem) 2) Menter sgriptio iaith Gymraeg llawr gwlad, rhwng Mentrau Iaith Cymru / Y Theatr Genedlaethol / Llenyddiaeth Cymru 3) Prosiect gwyliau blynyddol Mentrau Iaith ar y cyd gyda chanolfannau celfyddydol a theatrau Cymru.

- Y sector Iaith i rannu gyda'r sector Gelfyddydau wybodaeth am rwydweithiau o gwmpas cynllunio a datblygu Iaith, gan gynnwys cysylltiadau gyda Rhwydwaith Ewropeaidd NPLD (Rhwydwaith i hybu amrywiaeth ieithyddol) sy'n gweithio ym maes polisi Iaith (Bethan Webb, dirprwy Gyfarwyddwr adran Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ddirprwy gyfarwyddwr y rhwydwaith tan 2021) a methodolegau o gwmpas dysgu iaith ee., "Croesi'r Bont"

- Arweinwyr CCC a'r sector iaith Gymraeg, i gyd arwain "Sgwrs" rhithiol Iaith Gymraeg /Celfyddydol fel rhan o raglen AmGen wythnos yr Eisteddodd Genedlaethol ym mis Awst, i drafod sialensau a chyfleoedd i weithio yn agosach yn strategol ar ôl Covid.

- CCC i hwyluso sgwrs yn yr Iaith Gymraeg o dan arweiniad artistiaid ac ymarferwyr Du Asiaidd Aml-Ethnig (BAME), am sialensau a chyfleoedd i weithio yn yr iaith Gymraeg (fel rhan o gynhadledd CCC 2020 a rhaglen Eisteddfod AmGen ) mewn partneriaeth a'r sector iaith Gymraeg.

**CYNYDDU CYNNYRCH YN Y GYMRAEG:**

*" cyrraedd yn ehangach  ac yn ddyfnach i bob cymuned led led Cymru" (Cynllun Corfforaethol CCC)*

- **CCC i gynnwys o fewn ei Strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg, strategaeth ysbrydoledig a chadarn 5 mlynedd (*ynghyd a chynllun gweithredu gyda thargedau mesuradwy)* sydd yn canolbwyntio yn benodol ar *gynyddu* lefel, amrywiaeth, cysondeb ac ansawdd cynnyrch celfyddydol byw, sydd ar gael ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws Cymru (erbyn Mawrth 2021)**

**Camau gweithredu i gynnwys:**

- Datblygu gweithgaredd celfyddydol cynhwysol, gan adeiladu ar fodelau o ymarfer da ee., rhaglen comisiynu LHDT “Mas ar y Maes” yr Eisteddfod Genedlaethol (gyda’r bwriad o gynnal taith genedlaethol i theatrau a chanolfannau), cyweithiau creadigol o gwmpas an-ableddau ee BSL a’r iaith Gymraeg a menter diwylliannol CERED ar gyfer ffoaduriaid o Syria gyda phartneriaid o’r sector celfyddydol.

- Adnabod sioeau graddfa fechan llwyddiannus (gan gynnwys sioeau Nadolig) sydd a’r potensial o deithio’n ehangach â allai gael eu cyflwyno mewn ardaloedd o Gymru sydd ddim yn cael darpariaeth ddigonol, ac mewn canolfannau a theatrau (gan ystyried canol-fannau bychain cymunedol cefn gwlad) fel rhan o Gynllun Noson Allan, ac mewn par-tneriaeth a Creu Cymru a’r Mentrau Iaith.

- Gweithredu rhaglen beilot artistig ddyfeisgar ar ffurf ymyriadau a phreswyliadau ar lawr gwlad ar gyfer artistiaid Cymraeg eu hiaith / cwmnïau theatr newydd bychain (gan gyn-nwys rheiny sydd yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau creadigol yn yr iaith Gymraeg,) gan gyd weithio gyda’r sector datblygu iaith er mwyn gwreiddio’r gwaith mewn modd ystyrlon yng ngweithgarwch Merched y Wawr, Ffermwyr Ifanc, Mentrau Iaith a Mudiad Meithrin, gwersylloedd yr Urdd  a gyda chefnogaeth gelfyddydol / dimensiwn mentora gan sefyd-liadau portffolio y celfyddydau  - cyfres o brosiectau peilot a allai gael eu lleoli yn y man-nau canlynol ee., Canolfan Soar, Menter Iaith Caerffili, clwb Merched y Wawr ym Mhowys (bydd yr ymyrriadau hyn yn elwa o ddimensiwn “ymchwil weithredu”)

- CCC i sefydlu piblinell 5 mlynedd o brosiectau ymchwil a datblygu theatr iaith Gymraeg, ynghyd a strand comisiynau cynhyrchu llawn **gyda ffrwd ariannu ynghlwm**, (gan adeil-adu ar, ac ehangu’r rownd gomisiynu theatr Gymraeg diweddar) i gynnwys sbectrwm eh-angach o gynnig poblogaidd ac arbrofol, a gyda’r nod o ddatblygu cynnyrch sydd yn cyn-nig mwy o ddewis ac amrywiaeth i gynulleidfaoedd, er mwyn mynd i’r afael a’r dirywiad diweddar sydd mewn cynulleidfaoedd ar gyfer theatr Gymraeg.

**LLWYBRAU GYRFA CREADIGOL:**

*“Cryfhau  gallu a gwytnwch y celfyddydau, gan alluogi doniau creadigol i ffynnu”  ( Cynllun Corfforaethol CCC)*

**ARGYMHELLION:**

- **Datblygu llwybrau creadigol clir i yrfa gynaliadwy yn y celfyddydau yn yr iaith Gymraeg gyda’r sector Addysg bellach ac Uwch, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a rhaglen Ysgolion Creadigol CCC (erbyn Ionawr 2022)**

- **CCC i sefydlu a sicrhau rheolaeth barhaus o fasdata canolog o ymarferwyr cel-fyddydol / artistiaid, gan helpu i “ddarparu wybodaeth arbenigol a chyngor am y celfyddydau “ (Cynllun Corfforaethol CCC) gan adnabod llinell sylfaen o’r lefel bresennol (erbyn Ionawr 2021)**

- **I gynyddu yn sylweddol nifer o ymarferwyr celfyddydol (erbyn Ionawr 2022) o % (%i’w gytuno arno wedi sefydlu’r llinell sylfaen erbyn Ionawr 2021)**

**Camau gweithredu i gynnwys:**

- Datblygu rhaglenni llwybrau creadigol yn yr Iaith Gymraeg: Ymarfer Celfyddydau cyfranogol / Marchnata‘r celfyddydau / Arweinyddiaeth yn y Celfyddydau.

- Dyfeisio rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg addas i’r pwrpas, gyda’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol / IAITH, gan deilwro i anghenion ymarferwyr celfyddydol ar ddechrau eu gyrfa a rheiny sydd yn fwy profiadol.

- Adnabod gyda’r URDD, y talent ifanc sydd yn dod i’r amlwg drwy eu rhaglenni diwylliannol, gyda’r potensial o’u cyfeirio at lwybrau creadigol cyfrwng Cymraeg.

## DATBLYGU CYNULLEIDFA A MARCHNATA:

- **CCC i rannu gyda’r sector, wybodaeth o gwmpas ymarfer gorau mewn perthynas a marchnata trwy’r iaith Gymraeg a Marchnata i gynulleidfaoedd Cymraeg ac ymgymryd ag ymchwil perthnasol i anghenion cynulleidfaoedd iaith Gymraeg.**

***Camau gweithredu i gynnwys***

- Ymgymryd ag ymchwil i’r hyn yr hoffai cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith/cyfranogwyr fynychu.

- Y sector Celfyddydau i weithio gyda’r sector datblygu iaith, i rannu gwybodaeth ac ymarfer da o gwmpas dulliau hybu gweithgaredd Cymraeg allai olygu gweithio’n agosach gyda chymunedau ar ddatblygiad gwaith creadigol, ac ymgysylltu a rhwydweithiau llawr gwlad a grwpiau Dysgu Cymraeg ac ymgysylltu a dylanwadwyr o fewn cymunedau Cymraeg.

## CASGLIAD

Mae diwylliant a’r iaith Gymraeg yn mynd law yn llaw yng Nghymru - mae nhw wedi plethu, wedi eu cysylltu’n dynn - ac yn digwydd yn organig ar lawr gwlad. Mae’r thema hwn wedi bod yn amlwg drwy gydol y gwaith.

Cyfres o reolau yn unig yw iaith ar ei phen ei hun, ac mae hi angen cydestun, er mwyn ffynnu - mae’r Celfyddydau a gweithgaredd diwylliannol yn cynnig y cydestun hwnnw. Mae nhw hefyd yn ein galluogi i archwilio a diffinio ein hunaniaeth, i fynegi yr hyn ydyn ni a’n lle yn y byd. Dyw iaith ddim yn gorfod bod yn rhywbeth mewnblyg a thra bod angen ei gwarchod, mae angen i ni hefyd ei rhannu. Fel y dywedodd Yr Athro Mererid Hopwood yn ei darlith yng Ŵyl y Gelli 2020…”*Does gan iaith fawr o ystyr oni bai ein bod yn ei rhannu…ac ystyr cof ar y cyd yw perthyn ”*

Mae fy ymgysylltiad trwy'r gwaith mapio hwn, gyda grwpiau cymunedol, mentrau a sefydliadau datblygu iaith, artistiaid unigol, a sefydliadau creadigol wedi rhoi argraff i mi o ddeinameg neu deimlad o gwmpas profiadau artistig a diwylliannol yn yr iaith Gymraeg - eu arwyddocâd, rôl, perthnasedd a dyfodol, yn eu holl gymhlethdodau - a rydym ar groesffordd…

*…* un dyngedfennol… a serch y fflachiadau o athrylith ac ysbrydoliaeth, o feddwl blaengar a gweledigaethau beiddgar, rydym yno, yn sefyll, yn fregus ac ar chwâl… ac angen gweithredu ar frys, mewn modd mwy holistig gyda'n bryd ar gyfeiriad newydd:

Mae un cynhyrchydd annibynnol o Ogledd Cymru yn adleisio safbwynt nifer:
"*Mae grym celf yn glir i bawb ei weld, mae gan CCC gyfle i wneud gwahaniaeth mawr yn y niferoedd a canrannau o bobol sydd yn medru siarad Cymraeg, yn defnyddio'r iaith ac eu agwedd tuag at y Gymraeg. Ond mae angen cymeryd camau bras i wneud hyn ac angen arweiniad clir a gweledigaeth gre a bod yn barod i gymeryd llwybrau amgen i'r arferol er mwyn gwneud gwahaniaeth go iawn."*

Ac fel y dywedodd un cyfrannwr sy'n cynrychioli sefydliad celfyddydol yn ne ddwyrain Cymru pan ofynnwyd os oes prinder gweithgaredd celfyddydol Cymraeg*…" does dim digon o ddod at ein gilydd fel sector gyfan i fynd i'r afael â hyn"*

Mae Covid19 wedi ein gyrru i diriogaeth na welwyd ei thebyg yn ein cenhedlaeth ni ac mae Bywydau Pobl Dduon yn Cyfri, wedi amlygu'r angen am newid strwythurol… a chynrychiolaeth o bobl o liw ar bob lefel, ac o fewn pob sector.

Mae'n bryd i ni ddod at ein gilydd fel sector celfyddydol, ydi, ond i gynnydd hirdymor cynaliadwy ddigwydd mae gofyn i ni ymestyn yn ehangach ac yn ddyfnach i'n cymunedau - a chamu ymlaen law yn llaw a'r sector datblygu iaith Gymraeg a llunio llwybr newydd cyffrous a chynhwysol gyda'n gilydd. Ar hyd y llwybr newydd hwn cawn feithrin talentau a lleisiau yfory, a rhannu, ymhell ag agos, y Gymru yr ydym pob un ohonom yn perthyn iddi.



*Lluniau gan yr artist Manon Dafydd*
*sydd wedi cymhwyso o Goleg Central St Martins,*
*ac wedi'i sefydlu yng Ngogledd Cymru*